

CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL

CYFARFOD / MEETING 6/6/2016

PRESENNOL: Cadeirydd Mrs C Lloyd, Mrs E Jones, Mrs S Jones, Mrs H Williams, Mrs S Roberts, Ms M E Evans, Mr G Williams, Mr B Veevers a'r Cynghorydd Dylan Rees.

YMDDIHEURIADAU: Derbyniwyd ymddiheuriad am eu habsenoldeb oddi wrth Ms M Williams a Mr R G Parry.

COFNODION: Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 9 Mai 2016 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

MATERION YN CODI:

1. Cloc y pentref. Ni dderbyniwyd yr un ymateb am amcangyfrif o'r gost i ail-bwyntio'r cloc. Fodd bynnag, dywedodd Mrs S Jones y dylai'r Cyngor gysylltu a CADW yn gofyn am ganiatad i wneud y gwaith cyn symud ymlaen. Penderfynwyd gofyn i;r Clerc gysylltu a CADW.

2. Lôn yr Eglwys a Lôn Gerrig. Dim ond rhai o'r tyllau wedi'u llenwi. Penderfynwyd gofyn i Mrs S Jones dynnu llun o'r tyllau a'u hanfon ymlaen at y Cynghorydd R G Parry gyda'r bwriad iddo ddod a'r mater i sylw'r Cyngor Sir unwaith eto.

3. Pwyllgor Clwb Peldroed. Dim ymateb oddi wrth y Clwb Peldroed i lythyr a anfonwyd atynt yn dilyn eu cais am gyfraniad ariannol. Dywedodd Mrs S Roberts y cynhelir Cyfarfod Blynnyddol y Clwb heno ac efallai y trafodir y mater yn y cyfarfod hwnnw. Penderfynwyd felly i ail-drafod y mater yn y cyfarfod nesaf.

GOHEBIAETH:

1. Cyngor Sir Ynys Mon.

(a) Safleoedd dros dro ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Llythyr yn cynghori bod y

PRESENT: Chairman Mrs C Lloyd, Mrs E Jones, Mrs S Jones, Mrs H Williams, Mrs S Roberts, Ms M E Evans, Mr G Williams, Mr B Veevers and Counciloor Dylan Rees.

APOLOGIES: Apologies for their absence were received from Ms M Williams and Mr R G Parry.

MINUTES: Minutes of the meeting held on the 9 May 2016 were accepted as a true record of the meeting.

MATTERS ARISING:

1. Village Clock. No estimates for re-pointing the clock were received. However, Mrs S Jones stated that the Council should contact CADW for permission to carry out the work before proceeding any further. It was decided that the Clerk contact CADW.

2. . Lôn yr Eglwys a Lôn Gerrig. Only some of the holes in the roads had been repaired. It was decided to request Mrs S Jones to take photographs of the remaining holes and forward them to Councillor R G Parry with a view to him raising the matter with the County Council once again.

3. Football Club Committee. No response from the football club following receipt of a letter forwarded to them regarding their application for monetary contribution. Mrs S Roberts stated that the club's AGM was being held tonight and our letter could be discussed at that meeting. It was therefore decided to discuss the matter further at the next meeting.

CORRESPONDENCE:

1. Anglesey County Council.

(a) Temporarysites for Gypsies and Travellers. Letter informing that the

Cyngor Sir yn ail ddechrau proses o ymgynghori ar 5 safle arall. Dywedodd y Cynghorydd Dylan Rees bod cyfarfod cyhoeddus i'w gynnal yn Cartio Mon nos Iau nesaf am 7pm. Dywedodd hefyd y cynhelir Pwyllgor Sgrwtini ar y 17/7/2016 a'i bod yn bwysig i gynrychiolydd o'r Cyngor fod yn bresennol.

(b) Recriwtio canfaswyr ar gyfer diweddarau'r gofrestr etholwyr. Neb a diddordeb felly derbyn er gwybodaeth.

(c) Seremoni Cyhoeddi'r Eisteddfod. Gwahoddiad i fod yn rhan o'r Orymdaith Ddinesig. Neb yn rhydd i dderbyn y gwahoddiad.

(d) Cystadleuaeth Genedlaethol Jewson. Yr Iorwerth Arms, Bryngwran a Hwb Cymunedol Llanddaniel. Gwybodaeth fod y ddau prosiect wedi cyrraedd rhestr fer y gystadleuaeth, ac yn rhoi gwybodaeth ar sut i bleidleisio i'r ddau brosiect.

(e) Pwyllgor Cynllunio. Rhybudd Penderfyniad. Caniatad i gais llawn ar gyfer codi modur yn Ty Gwyn, Gwalchmai.

2. Grid Cenedlaethol. Cysylltiad Grid Cenedlaethol yng Ngogledd Cymru – ymgynghoriad arfaethedig yr Arolygiaeth Gynllunio. Derbyn er gwybodaeth.

3. Un Llais Cymru.

(a) Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth. Cynghori bod rhaid adrodd i'r Panel ar lwfansau a threuliau a dalwyd i gynghorwyr. Dywedodd y Clerc ei bod ar y 23/5/2016 wedi anfon adroddiad i'r Panel yn dangos DIM TALIADAU. Ar ran y Cyngor, diolchwyd i'r Clerc gan Mrs E.Jones.

(b) Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Gwahoddiad i fynychu sesiynau trafod. Er gwybodaeth.

4. David Lydford, Pant y Wern, Gwalchmai. Llythyr yn cwyno am y sbwriel ar y ffyrdd ac ym maes parcio'r dafarn. Penderfynwyd anfon copi o'r llythyr at Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ynys Mon, a chan fod Mr Lydford yn gofyn am gymorth

County Council is restarting the process of consulting on 5 other sites. Councillor Dylan Rees stated that a public meeting was to be held at Cartio Mon next Thursday at 7pm. He also said that a Scrutiny Committee was to be held on 17/7/2016 and that it was important for a representative from the Council to attend.

(b) Recruitment of Canvassers to update the electoral register. No one interested therefore for information only.

(c) National Eisteddfod Proclamation Ceremony. Invitation to take part in the Civic Procession. No one free to accept the invitation.

(d) Jewson National Competition. Advising that the Iorwerth Arms Bryngwran and Llanddaniel Community Hub project have both reached the short list of the above competition, and giving information on how to vote for both projects.

(e) Planning Committee. Notice of Decision. Permission granted to the full application for the erection of a garage at Ty Gwyn, Gwalchmai.

2. National Grid. National Grid North Wales Connection – upcoming Planning Inspectorate consultation. For information.

3. One Voice Wales.

(a) Independent Remuneration Panel for Wales. Informing the Council that it was necessary to report to the panel on allowances and expenses paid to the councillors. The Clerk stated that she had sent a NIL return to the panel on 23/5/2016. Mrs E Jones thanked the Clerk on behalf of the Council.

(b) Office of the Future Generations Commissioner. Invitation to attend discussion sessions. For information.

David Lydford, Pant y Wern, Gwalchmai. Letter of complaint regarding the amount of litter along the roadsides and in the hotel car park. It was decided to forward a copy of the letter to the Highways Department of the County Council and as Mr Lydford had

gan y PCSO i addysgu plant a phobl ifanc am ollwng sbwriel, penderfynwyd anfon copi at at yr Heddlu hefyd..

5. Capel Jerusalem. Copi o restr rhoddion i gronfa Mynwent y Capel er gwybodaeth.

6. Cyfoeth Naturiol Cymru. Gwybodaeth am gais gan Grays Biogas Cyf i amrywio trwydded amgylcheddol ar gyfer gwaith treuiol anaerobig ym Mona. Derbyn er gwybodaeth.

ARIANNOL:

1. Archwiliad Mewnol. Dywedodd y Clerc bod yr Archwiliad Mewnol i ddigwydd ar y 7/6/2016 a bod rhaid derbyn a chymeradwyo'r fantolen ariannol yn dilyn yr archwiliad mewnol cyn y 30 Mehefin. Felly bydd rhaid cynnal cyfarfod mis nesaf ar y 27/6/2016 er mwyn cyrraedd y dyddiad penodedig. Pawb yn fodlon ar hynny.

2. Anfonebau. Derbyniwyd yr anfonebau canlynol: Hywel G Hughes £45.00 am gyfieithu ar y pryd yng nghyfarfod mis Mawrth; Npower £27.59 cyflenwad trydan i'r cloc 31/1/2016 – 30/4/2016; Cymen £145.44 am gyfieithu ar y pryd yng nghyfarfod mis Mai. Cyflog y Clerc am chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol £380.00; PAYE ar gyflog y Clerc £95.00. Caniatu talu'r cwbl.

UNRHYW FATER ARALL:

1. Llwybrau Cyhoeddus. Dywedodd Mrs S Jones nad oedd unrhyw symud ymlaen wedi'i wneud gan y Cyngor Sir yng nghyswllt a llwybr Pendref. Gofynnwyd iddi ddod a'r mater i sylw'r Cynghorydd R G Parry. Dywedodd Mrs Jones hefyd ei bod yn amser cerdded y llwybrau cyhoeddus. Penderfynwyd gan mai ond tri llwybr yn unig oedd ddim yn cael eu cerdded yn rheolaidd - , llwybyr Gweithdy, Pumllog a Phenbryn Uchaf - cerdded y tri llwybr hwn yn unig. Yn ol yr arfer, Mrs S Jones i

requested the help of the PCSO to educate the children and youth about litter dropping, it was decided to send a copy to the Police as well.

5. Jerusalem Chapel. Copy of list of donations to the Cemetery Fund for information.

6. Natural Resources Wales. Information that Grays Biogas Ltd has submitted a variation application for an environmental permit for the anaerobic digester plant at Mona. For information.

FINANCIAL:

1. Internal Audit. The Clerk stated that the Internal Audit would take place on the 7/6/2016 and that the Annual Return had to be accepted and approved following the internal audit, before the 30 June 2016. Therefore the next meeting will have to be held on the 27/6/2016 in order to comply with the specified date.. All in agreement to this date.

3. Invoices. The following invoices were received: Hywel G Hughes £45.00 for interpreting at the March meeting; Npower £27.59 electricity supply to the clock 31/1/2016 – 30/4/2016.; Cymen £145.44 for interpreting at the May meeting. Clerk's salary for the first quarter of this financial year £380.00; PAYE on the Clerk's salary £95.00. Permission given to pay all the invoices.

ANY OTHER MATTER:

1. Public Footpaths. Mrs S. Jones reported that no progress on the clearing of the Pendref footpath had been made by the G County Council. She was requested to bring the matter to the attention of Councillor R G Parry. Mrs Jones also reminded the Council that it was time to arrange the annual walk around the public footpaths. It was decided that as there were only three footpaths that weren't walked regularly – Gweithdy, Pumllog and Penbryn Uchaf – to only walk around these three footpaths. As in the past,

drefnu'r dyddiad a'r amser yn uniongyrchol gyda'r rhai oedd yn rhydd i gerdded y llwbrau gyda hi.

CYFARFOD NESAF: Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun 27/6/2016 am 7pm.

Mrs S Jones to organise the date and time directly with the Councillors who are free to undertake the walk.

NEXT MEETING. The next meeting will be held on Monday 27/6/2016 at 7pm.